# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 29 Mehefin 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(10)

**1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 5 a 10 eu grwpio. Cafodd cwestiynau 7 a 8 eu grwpio. Tynnwyd cwestiwn 12 yn ôl.

**14.23**
**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth**

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

**3. Cynnig o dan adran 17(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn cysylltiad ag anghymhwyso Aled Roberts - WEDI'I OHIRIO TAN 6 GORFFENNAF 2011**

**4. Cynnig o dan adran 17(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn cysylltiad ag anghymhwyso John Dixon - WEDI'I OHIRIO TAN 6 GORFFENNAF 2011**

**15.15**
**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

**NDM4770 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyfnod canol (8-13 oed) er mwyn integreiddio'r system ysgol ac i bontio'r gagendor rhwng y Cyfnod Sylfaen a'r Llwybrau Dysgu 14-19.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 38 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu’r cyfan a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth ar gyfer plant 8-13 oed gyda’r nod o sicrhau bod y cyfraddau presennol ar gyfer anllythrennedd ac anrhifogrwydd ymhlith plant sy’n gadael ysgol gynradd yn cael eu haneru erbyn 2016.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 0 | 40 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai’r cyfnod canol hwn wella’r trefniadau pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd drwy ffurfioli partneriaethau rhwng yr ysgolion hyn, cyflogi mwy o athrawon pontio, a sicrhau bod y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion uwchradd yn cynnig gwell cydbwysedd rhwng addysgu academaidd a bugeiliol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 3 | 11 | 37 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwgio, ac wedi gwrthod y gwelliannau i’r cynnig, nid yw’r cynnig wedi ei gymeradwyo.

**16.11**
**6. Dadl Plaid Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

**NDM4771 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi ymgynghoriad yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ‘A Communications Review for the Digital Age’, gan gynnwys ei bwyslais ar

ddadreoleiddio a’r goblygiadau o ran comisiynu rhanbarthol a’r cyfryngau ehangach yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ei hymateb.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 11 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**16.54**
**7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

**NDM4772 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu rhaglen gwella safonau ysgolion drwy:

a) cyflwyno premiwm disgybl er mwyn targedu arian at ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig, gan helpu i gau'r bwlch cyllido rhwng Cymru a Lloegr;

b) datblygu rhaglen gynhwysfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, a gaiff ei chyllido drwy gael gwared ar Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a thrwy wella prosesau cynllunio’r gweithlu;

c) diweddaru’r cwricwlwm cenedlaethol fel ei fod yn canolbwyntio ar sgiliau allweddol;

d) fynnu bod adolygiad annibynnol llawn o drefniadau llywodraethu ysgolion yn cael ei gynnal, gan archwilio’n benodol faterion yn ymwneud ag atebolrwydd lleol, yr arweinyddiaeth briodol ar gyfer cyrff llywodraethu, ac a fyddai un corff llywodraethu yn briodol ar gyfer dalgylchoedd; ac

e) gwella’r trefniadau pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd drwy ffurfioli’r partneriaethau rhwng yr ysgolion hyn, cyflogi mwy o athrawon pontio, a sicrhau bod y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion uwchradd yn cynnig gwell cydbwysedd rhwng addysgu academaidd a bugeiliol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 3 | 0 | 48 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu is-bwynt a) ac ailrifo’r pwyntiau sy'n dilyn.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 14 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Dileu is-bwyntiau b) i e) a rhoi is-bwyntiau newydd yn eu lle:

Gweithredu cynlluniau Llywodraeth Cymru yn fanwl ar gyfer gwella safonau llythrennedd a monitro canlyniadau'r cynlluniau hynny;

Darparu cwricwlwm cenedlaethol cyflawn i gynnwys amser ar gyfer chwaraeon, economeg y cartref a sgiliau bywyd; a

Datblygu cam canol mewn addysg.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 8 | 32 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn is-bwynt b), dileu popeth ar ôl 'datblygiad proffesiynol parhaus'

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 14 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Yn is-bwynt d), dileu 'Gorchymyn adolygiad annibynnol llawn' a rhoi 'Cynnal adolygiad' yn ei le.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 8 | 0 | 43 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu is-bwynt e).

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 14 | 51 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4772 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu rhaglen gwella safonau ysgolion drwy:

a) datblygu rhaglen gynhwysfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus;

b) diweddaru'r cwricwlwm cenedlaethol fel ei fod yn canolbwyntio ar sgiliau allweddol;

c) fynnu bod adolygiad annibynnol llawn o drefniadau llywodraethu ysgolion yn cael ei gynnal, gan archwilio'n benodol faterion yn ymwneud ag atebolrwydd lleol, yr arweinyddiaeth briodol ar gyfer cyrff llywodraethu, ac a fyddai un corff llywodraethu yn briodol ar gyfer dalgylchoedd; ac

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 11 | 51 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**17.38**
**Cyfnod pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 17.45.

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 on Dydd Mawrth, 5 Gorffennaf 2011**